

Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition



David Rees AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
David.Rees@senedd.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

11 Mawrth 2021

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror, lle gwnaethoch amlinellu'r gwaith dilynol diweddar a wnaed gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol mewn perthynas â'r newidiadau i ryddid i symud ar ôl Brexit. Rwy'n croesawu'r sylw y mae'r Pwyllgor wedi'i roi i'r mater pwysig hwn ac yn nodi'r dystiolaeth yr ydych wedi'i darparu a'r argymhellion yr ydych wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU. Fe wnaif i ymateb i'ch argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl o bob gwlad, nid yn unig yr Undeb Ewropeaidd, sydd wedi dewis ymgartrefu yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u bod yn aelodau gwerthfawr o'n cymunedau. Arwydd o hyn yw ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol i drigolion yng Nghymru, waeth beth fo'u cenedligrwydd.

Yn anffodus, mae'r diwedd i'r rhyddid i symud wedi golygu newid sylweddol i ddinasyddion yr UE. Ond fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, rwy'n benderfynol y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'r newid hwn yn effeithio ar eu penderfyniad i aros yma. Mae dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn cyfoethogi ein cymunedau'n aruthrol, yn cyfrannu'n sylweddol at ein gwasanaethau cyhoeddus, yn cefnogi ein heconomi a'n busnesau, ac yn ychwanegu at ein llwyddiant economaidd cyffredinol. Dyna pam y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn o gyllid ychwanegol i gefnogi parhad nifer o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar roi Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng nghyhoeddiad y gyllideb derfynol ar 2 Mawrth.

Fel y mae tystiolaeth y Pwyllgor yn awgrymu, mae'n hanfodol ein bod yn canfod ac yn cefnogi'r bobl yn ein cymunedau sydd mewn perygl o golli eu cyfle i wneud cais am statws preswyllydd sefydlog, yn enwedig oedolion a phlant sy'n agored i niwed a'r rhai a all deimlo fod y broses ymgeisio, sy'n ddigidol yn unig, yn un llethol. Rydym wedi pwysu'n gyson ar Lywodraeth y DU i ymestyn dyddiad cau'r broses ymgeisio am Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, sef 30 Mehefin 2021, yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig presennol - ond yn anffodus maent wedi dewis peidio â chymryd y camau a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

argymhellwyd gennym. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ffordd yr ydym yn cefnogi dinasyddion yr UE dros y misoedd nesaf a thu hwnt yn bwysicach nag erioed.

Dros y misoedd diwethaf, mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried pa gymorth pellach y gallem ni a phartneriaid ei ddarparu yn y cyfnod sy'n arwain at ddyddiad cau'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ac wedi hynny. Rydym wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol yn ddiweddar ar gyfer Newfields Law, Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled. Dylai hyn gyfrannu ymhellach at sicrhau bod dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru yn ymwybodol o'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a bod ganddynt fynediad at gyngor mewnfudo am ddim, waeth beth fo cymhlethdodau'r achos. Bydd cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i Gydlynwyr Pontio'r UE Awdurdodau Lleol hefyd yn hwyluso hyn ac yn galluogi i Awdurdodau Lleol ddarparu cymorth lleol mwy hyblyg, wedi'i deilwra i anghenion a phryderon y boblogaeth leol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am roi pwyslais cryf ar y maes hwn ac mae'n galonogol gweld bod argymhellion y Pwyllgor yn cyd-fynd yn gryf â gwaith presennol Llywodraeth Cymru a'n cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf, wrth i ni agosáu at y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Yn yr adrannau isod, rwyf wedi ymateb yn fanwl i bob un o argymhellion y pwyllgor i Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 1. Oherwydd y pryderon parhaus ynghylch y mater hwn, rydym yn ailadrodd yr argymhelliad o'n hadroddiad gwreiddiol: y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan neges arall o gefnogaeth i ddinasyddion yr UE yng Nghymru. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i gyrraedd dinasyddion yr UE a sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'r angen i wneud cais cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021.

Ymateb: Derbynn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi dinasyddion yr UE yng Nghymru cymaint ag y gallwn, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cymorth a chynngor am ddim ar gael i bawb sy'n gwneud cais am Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a bod cefnogaeth ychwanegol ar gael i grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed.

Ym mis Rhagfyr 2020 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch gyfathrebu newydd wedi'i thargedu drwy'r cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio dinasyddion yr UE at wasanaethau cynghori pwrpasol, a chynhelir yr ymgyrch hon tan ddiwedd mis Mawrth 2021, gan adeiladu ar ein ymgysylltiad cyfryngau cymdeithasol blaenorol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi datblygu cynllun cyfathrebu manylach ar gyfer Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Bydd yn gweithio gyda nifer o bartneriaid dros y misoedd nesaf i gyfleu negeseuon allweddol a chodi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Grŵp Cydgysylltu Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE Cymru, gorsafoedd radio lleol, erthyglau newyddion sy'n benodol i'r sector a datganiadau i'r wasg gan Lywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar iawn, cyhoeddodd y Prif Weinidog llythyr agored i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru i'w sicrhau ein bod ni eisiau iddynt aros ac y byddwn yn eu cefnogi i wneud hynny. Cyhoeddwyd y llythyr mewn 10 iaith Ewropeaidd, yn ogystal â'r Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn sicrhau'r cyfle gorau y bydd y llythyr yn cyrraedd ei gynulleidfa

arfaethedig. Mae hyn yn ychwanegol at y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud fel rhan o'n hymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun, a chyda'r pecyn ariannu a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel rhan o'n cyllideb derfynol gallwn yn awr ymestyn y cymorth hwn ymhellach a pharhau â'n hymgyrchoedd ymwybyddiaeth a'n gwaith cysylltiedig.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn ei chefnogaeth, naill ai drwy'r Grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru presennol neu drwy ddulliau eraill, y tu hwnt i'r dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021, yn benodol ar gyfer pobl y mae eu hamgylchiadau wedi newid oherwydd pandemig COVID-19 a grwpiau sy'n agored i niwed a allai fod wedi colli'r dyddiad cau oherwydd anawsterau yn eu hamgylchiadau.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i bryderu am y nifer o ddinasyddion UE yng Nghymru sy'n agored i niwed ac na fyddant efallai wedi sicrhau eu statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog erbyn y dyddiad cau ym mis Mehefin. Gobeithiwn y bydd y cyhoeddiadau ariannu diweddar yn lliniaru'r pryder hwn rywfaint. Byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am sicrwydd ynghylch ceisiadau hwyr ac effaith COVID-19 ac yn ddiweddar rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Kevin Foster AS Gweinidog Ffiniau'r Dyfodol a Mewnfudo i godi fy mhryderon. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i geisio osgoi'r canlyniad hwn.

Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi ymestyn ei chyllid ar gyfer Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled hyd at 31 Rhagfyr 2021. Bydd hyn yn golygu y gall Cyngor ar Bopeth Cymru barhau i ddarparu eu gwasanaethau cyffredinol yn ogystal â rhoi cyngor ar geisiadau statws preswlyo'n sefydlog, lles cymdeithasol, budd-daliadau a chyflogaeth a materion yn ymwneud â'r gweithle; bydd Settled yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth i ddinasyddion yr UE sy'n agored i niwed ac sy'n anodd eu cyrraedd.

Yn ogystal, mae contract Llywodraeth Cymru gyda chwmni cyfraith mewnfudo Newfields Law wedi'i ymestyn yn ddiweddar o fis Mawrth 2021. Bydd Newfields Law yn parhau i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth, gan gynnwys cyngor mewnfudo cymhleth, i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru i'w helpu i wneud cais llwyddiannus am statws preswlyo'n sefydlog. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn adolygu'r contract hwn bob 3 mis am y cyfnod disgwylidig y bydd efallai angen cymorth ar ddinasyddion yr UE, ac o bosibl am gyfanswm o hyd at 12 mis ychwanegol.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i helpu dinasyddion yr UE i fynd drwy'r broses o wneud cais yn ddigidol yn absenoldeb unrhyw gefnogaeth wyneb yn wyneb, a'i bod yn ystyried anghenion grwpiau sy'n agored i niwed wrth wneud hynny.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid parhaus yn ddiweddar, am hyd at 12 mis ychwanegol posibl, i gwmni cyfreithiol o Gaerdydd, Newfields Law, er mwyn iddynt barhau i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth, gan gynnwys cyngor mewnfudo cymhleth, i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru ac i'w helpu i wneud cais llwyddiannus am statws preswlyo'n sefydlog. Mae'r gwasanaeth cynghori yn rhoi cyngor ar gymhwysedd i gael statws preswlydd sefydlog a statws preswlydd cyn-sefydlog, yn cynghori ar y dogfennau sydd eu hangen i gefnogi'r ddau fath o gais a, lle y bo'n briodol, yn helpu i gyflwyno'r cais ei hun. Mae Newfields Law hefyd yn cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau ar ôl cwblhau gan gynnwys cwestiynau gan y Swyddfa Gartref ac yn cynorthwyo gyda heriau i unrhyw benderfyniadau gan

ddefnyddio gweithdrefn Adolygiad Gweinyddol y Swyddfa Gartref lle bo'n briodol. Er nad yw'n bosibl cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb oherwydd y pandemig mae Newfields Law yn dal i ddarparu cyngor gan ddefnyddio amryw o lwyfannau rhyngweithiol amgen gan gynnwys dros y ffôn, e-bost, sgwrs ar y we a chyfarfodydd fideo.

Bydd Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled yn parhau i ddarparu cymorth gyda cheisiadau statws preswyllo'n sefydlog symlach hyd at 31 Rhagfyr 2021. Bydd Settled yn parhau i ganolbwyntio ar roi cefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n agored i niwed ac sy'n anodd eu cyrraedd. Mae Awdurdodau Lleol hefyd wedi cael arian ychwanegol yn ddiweddar i ddarparu cymorth hyblyg, pwrpasol ar gyfer pontio'r UE a fyddai'n cynnwys darparu cymorth Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd a rhai sy'n agored i niwed.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio sianeli presennol i roi cefnogaeth i gyflogwyr Cymru i'w galluogi i ddeall y system fewnfudo newydd, gan gynnwys y fisa gofal iechyd newydd, y tâl sgiliau mewnfudo a'r ffi drwydded ychwanegol.


Ymateb: Derbyn

Er bod mudo'n fater a gadwyd yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rôl bwysig o ran ceisio cefnogi dinasyddion yr UE yn uniongyrchol yn ogystal â chefnogi busnesau a chyflogwyr eraill sy'n cyflogi dinasyddion yr UE. Gyda hyn mewn golwg, mae gwefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor a chymorth i Ddinasyddion a chyflogwyr yr UE ac yn cyfeirio cyflogwyr Cymru at 'Becyn Cymorth i Gyflogwyr' Llywodraeth y DU sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad ar gefnogi dinasyddion yr UE i wneud cais am Statws Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn ogystal â darparu gwybodaeth am gyflogi pobl o'r tu allan i'r DU a hawliau gweithwyr. Yn ogystal, mae porth Pontio'r UE Busnes Cymru yn cynnig cymorth penodol i fusnesau.

Mae gan Lywodraeth Cymru sawl cyfrwng y gallwn eu defnyddio i gyfleu ein negeseuon i fusnesau, gan gynnwys y llwyfannau ar-lein uchod a newyddlenni ac e-fwletinau rheolaidd ar draws pob sector y bydd y gofynion newydd yn effeithio arnynt.

Yn ogystal â hyn, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn rhoi cyngor ychwanegol ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth a gweithleoedd.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition